



## Awydd bod yn Gyngorydd?

Mae gan y Cyngor sedd wag yn Ward Carmel.

Gofynnir i unrhyw aelod o'r gymuned sydd yn cyflawni'r meini prawf\* isod i ystyried bod yn Gyngorydd.

**O'r Môr i'r Mynydd** – o Ffort Belan i gopa Mynydd Grug - mae'r Cyngor yn cynrychioli ardal Y Fron, Carmel, Y Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle ac yn gwasanethu 2,500 o drigolion.

Ymunwch a Cyngor gweithgar a brwdfrydig....mewn cymuned hollol unigryw , gan gynnwys yn ei ffiniau'r unig draeth yn Arfon, Coleg a Phlasdy Glynllifon, maes awyr, gwarchodfa natur, chwareli a llonyddwch tir comin Uwch Gwyrfai. Mae'r Cyngor yn Awdurdod claddu sy'n cynnal mynwentydd , caeau chwarae, llochesi bws, cynnal llwybrau tramwy a'r pwerau i gynnal toiledau cyhoeddus, lawntiau, tiroedd comin, ymylon ffyrdd, gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn y gymuned, darparu biniau sbwriel mewn strydoedd/ rhoi cymorth i ymgyrchoedd sy'n gweithredu yn erbyn sbwriel; rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio , rhoi rhoddion ariannol i fudiadau gwirfoddol a llawer mwy.

**Dewch i wneud gwahaniaeth i'n cymuned.** Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

### ***Buddiannau –***

- ***Telir talu lwfans i ad-dalu treuliau o £208 y flwyddyn***
- ***Telir lwfans presenoldeb o £10 am fynychu cyfarfodydd***
- ***Darperir offer TGCh***
- ***Darperir pecyn hyfforddiant i pob aelod.***

Am wybodaeth pellach cysylltwch a David, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor ar 01286 881920/ 07796 024288 neu e-bostiwch

[gwybodaeth@cyngorcymunedllandwrog.cymru](mailto:gwybodaeth@cyngorcymunedllandwrog.cymru)

\*meini prawf –yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol: wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neur ydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.